

Cyngor Sir Penfro  
Pembrokeshire County Council



## **ADDYSG**

---

# **Coronafeirws (Covid-19) – Y Cyfnod Adfer**

## **Canllawiau Gweithredol ar gyfer Darparu Cludiant i'r Ysgol o Tymor y Gwanwyn 2021**

# Chwefror 2021

## Rheolaeth Fersiwn

<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad Cyhoeddi</b>	<b>Crynodeb byr o Newidiadau</b>
0.1	05.02.21	Dyrannwyd y drafft cyntaf i Huw Jones, Addysg a Gweithredwyr Bysus Mawr am adborth cychwynnol.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cyngor Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau risgiau COVID-19
3. Asesiad Risg a Mesurau Diogelu
4. Canllawiau Cyffredinol i Weithredwyr Cludiant parthed Coronafeirws (Covid-19)
3. Canllawiau Coronafeirws (Covid-19) Ychwanegol ar gyfer Cludiant Anghenion Addysgol Ychwanegol
4. Canllawiau Covid-19 ar gyfer Gwasanaethau Bws Lleol (bws cyhoeddus) Covid-19
5. Grwpiau Cludiant Cymunedol

## 1. Cyflwyniad

Mewn ymateb i argyfwng pandemig byd-eang y Coronafeirws/Covid-19, gwnaeth Llywodraeth Cymru gau holl ysgolion/golegau Cymru am yr eildro o 18 Rhagfyr 2020. O 22 Chwefror 2021, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn cyfnod dychwelyd cam wrth gam i ddisgyblion i ddysgu wyneb yn wyneb gan ddechrau gyda disgyblion y cyfnod sylfaen mewn ysgolion cynradd. Bydd hyn yn dibynnu ar dystiolaeth wyddonol sy'n caniatáu i hyn ddigwydd. Yn dilyn hyn ac unwaith eto gan ddibynnu ar y dystiolaeth wyddonol, caiff cynlluniau eu gwneud i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n gallu dychwelyd i ysgolion/golegau a bydd rhagor o fanylion am hyn yn cael eu cyhoeddi yn y man.

Gwnaeth y Gweinidog Addysg gyhoeddi ar 5 Chwefror 2021 y bydd ysgolion yn cychwyn ar gyfnod dychwelyd cam wrth gam i ddysgwyr y cyfnod sylfaen o 22 Chwefror 2021. Mae'r papur briffio diweddaraf gan Grŵp Cyngori Technegol Cymru yn nodi'n glir y sefyllfa ledled Cymru mewn perthynas â Covid-19 a'r gostyngiad cadarnhaol cyson ym mron pob un o'r dangosyddion. Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod digon o hyblygrwydd i alluogi'n dysgwyr ieuengaf i ddychwelyd i'r ysgol.

Bydd nifer fach o ddysgwyr galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaid, hefyd yn gallu dychwelyd i'r coleg.

Mae system Profi Olrhain Diogelu'r GIG bellach yn fwy effeithlon ac rydym yn glir am y mesurau sydd angen bod ar waith i greu amgylcheddau mwy diogel mewn ysgolion.

Gwyddom hefyd fod y risg y bydd plant yn mynd yn ddirifol wael ar ôl cael COVID19 yn isel iawn. Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod "haint SARS-CoV-2 yn fwy ysgafn ymysg plant nag oedolion: mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n cael eu heintio yn dangos symptomau ysgafn neu'n asymptotig, ac ychydig iawn sy'n datblygu clefyd dirifol neu sy'n peryglu bywyd. Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch i ba raddau mae plant yn gallu trosglwyddo'r clefyd, ond wrth i ni wylïo'r hyn sy'n digwydd wrth agor ysgolion yn Lloegr ac mewn gwledydd eraill, nid yw'r clefyd wedi cael ei drosglwyddo llawer gan blant".

Rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng y risgiau hyn a'r effeithiau negyddol ar iechyd wrth beidio â mynd i'r ysgol. Mae ysgol hefyd yn bwynt cyswllt pwysig ar gyfer gwasanaethau diogelu ac iechyd y cyhoedd sy'n hanfodol i les plant a theuluoedd.

Er nad yw'n bosibl sicrhau amgylchedd cwbl ddi-risg, mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r cysylltiad rhwng galwedigaethau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn awgrymu nad yw staff mewn lleoliadau addysg ('lleoliadau') yn tueddu i wynebu mwy o risg o'r clefyd na llawer o alwedigaethau eraill. Nid oes dystiolaeth bod plant yn trosglwyddo'r clefyd yn fwy nag oedolion. Ar hyn o bryd, mae nifer y gweithwyr addysg sy'n cael canlyniad positif yn isel iawn – 3.8% gyda'i gilydd, sy'n un o'r cyfraddau isaf ymysg gweithwyr hanfodol.

Gan fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn, mae'r cydbwysedd risg bellach yn gadarn o blaid bod plant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae peidio â mynd i'r ysgol yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant, ac i'w hiechyd a'u lles, yn enwedig ymysg plant difreintiedig; a, gall hyn gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gwyddom fod cyflawniad academaidd is hefyd yn troi'n gostau economaidd tymor hir. Gwyddom hefyd fod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Bydd anfon dysgwyr yn ôl i'r ysgol mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl yn arwain at fanteision cadarnhaol ar sawl agwedd, yn enwedig eu lles meddyliol ac emosiynol.

Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn darparu fframwaith i arweinwyr ysgolion er mwyn rhoi mesurau diogelu cymesur ar waith ar gyfer plant a staff, ac mae hefyd yn galluogi dysgwyr i gael addysg sy'n cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n rhoi cyfle iddyn nhw ffynnu a datblygu. Mae hefyd yn cydnabod y bydd cyd-destun ysgol yn pennu sut dylid defnyddio cyfuniad o'r mesurau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint ym mhob lleoliad unigol.

Bydd Tymor y Gwanwyn bellach yn cychwyn o 22 Chwefror 2021 i ddysgwyr yn Sir Benfro. Bydd hwn yn gyfnod dychwelyd cam wrth gam gyda'r grwpiau y soniwyd amdanynt eisoes uchod gyda gweddill y grwpiau blwyddyn ysgolion cynradd a'r rheiny ym mlynnyddoedd 11 ac 13 ac unrhyw ddisgyblion a fydd yn sefyll arholiadau ym mlynnyddoedd 10 a 12 yn dilyn os bydd y dystiolaeth wyddonol yn caniatáu hynny. Yna'r gobaith yw y bydd gweddill y disgyblion uwchradd yn cychwyn yn ôl ar ôl gwyliau'r Pasg yn amodol ar y dystiolaeth wyddonol. Bydd ysgolion cynradd yn cynnal diwrnod cynllunio ar 22 Chwefror 2021 er mwyn i blant y cyfnod sylfaen dychwelyd yn ddiogel ar 23 Chwefror 2021.

Ni fydd un ateb yn addas i bawb, a chydabyddir y bydd heriau lleol yn wynebu pob ysgol a lleoliad. Byddwn felly yn gweithio gyda'n holl ysgolion a'u lleoliadau i gynllunio ar gyfer tymor yr hydref, gan gydnabod y bydd y canllawiau'n datblygu dros yr wythnosau nesaf i adlewyrchu polisïau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Ni fydd disgwyl i awdurdodau lleol barhau i gynnig darpariaeth gofal plant brys yn ystod tymor yr hydref.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r cyngor ar iechyd y cyhoedd y mae'n rhaid i ysgolion a lleoliadau ei ddilyn er mwyn lleihau'r risgiau o drosglwyddo COVID-19. Mae hefyd yn cynnwys y broses y dylid ei dilyn os bydd unrhyw un yn datblygu symptomau COVID-19 yn yr ysgol. Mae'r canllawiau'n darparu set o egwyddorion i helpu ysgolion a lleoliadau i wneud hyn, ac i leihau'r risgiau maes o law.

Canfu adroddiad diweddar gan Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd Sweden "nad yw plant yn grŵp risg mawr o ran clefyd COVID-19, a'i bod yn ymddangos eu bod yn chwarae llai o ran o safbwynt trosglwyddo...Rhaid pwysu a mesur effeithiau negyddol cau ysgolion yn erbyn yr effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol y gallai hynny eu cael ar liniaru'r pandemig COVID-19".

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus, a bydd angen i bob ysgol hefyd gynllunio ar gyfer y posibilrwydd o gyfyngiadau symud lleol, a sut byddant yn sicrhau bod addysg yn parhau o fewn fframwaith ehangach o gyfyngiadau lleol..

Bydd y canllawiau hyn yn cael ei adolygu'n gyson a bydd bob amser yn dilyn y cyngor gwyddonol diweddaraf.

Mae'r cynlluniau a amlinellir isod yn gosod allan sut y bydd darpariaeth trafndiaeth ysgolion yn Sir Benfro yn dychwelyd a bydd y cynlluniau hyn yn cael eu diweddarau a'u hail-ddosbarthu wrth i'r cynllun dychwelyd i ysgolion fynd rhagddo. Mae angen i bob gweithredwr/cytundebwr trafndiaeth yng Nghyngor Sir Penfro ddarllen a mabwysiadu'r canllawiau hyn. Mae'n gwbl glir ei fod yn annatod berthnasol i ysgolion, rhieni/gofalwyr a dysgwyr.

Mae Cyngor Sir Penfro yn gwerthfawrogi yn fawr yr holl gefnogaeth ac ymdrech gan ysgolion, rhieni, gweithredwyr trafndiaeth ysgolion a'n partneriaid eraill yn ystod yr amseroedd anodd hyn, ac rydym yma bob amser i roi cefnogaeth i chi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â'r Uned Trafndiaeth Integredig (ITU), gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar ddiwedd y canllaw hwn.

Uned Integredig Trafndiaeth, Cyngor Sir Penfro

## Trafnidiaeth Ysgol – Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

- 1.1 Mae'r cyngor hwn yn seiliedig ar gydbwysedd tystiolaeth yn benodol am Covid-19, ynghyd â'r cyngor sy'n ymwneud â lles ehangach plant a manteision addysg.
- 1.2 Yn unol â chanllawiau Ll C, mae'r All yn parhau i ofyn i rieni ddanfôn eu plant eu hunain i'r ysgol lle bo modd, gan wneud defnydd o deithio llesol (megis cerdded neu feicio) oherwydd ei fudd i iechyd plant a'r amgylchedd. Dyma hefyd y dull teithio sy'n peri'r risg lleiaf o drosglwyddo coronafeirws. Cyn belled ag y mae'n ddiogel i wneud hynny, dylid annog plant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i deithio i'r ysgol neu goleg ar droed, feic neu sgwter.
- 1.3 Dylid ystyried cludiant ysgol benodedig fel estyniad o ystâd yr ysgol. Dylai plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r cludiant yn ddyddiol gael eu grwpio i garfanau fydd yn lleihau nifer y cysylltiadau.
- 1.4 Mae teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o ddod â rhai sydd mewn llai o berygl o ddal a throsglwyddo Covid-19 (pobl iau) i gyswllt gyda rhai sydd mewn mwy o berygl. Mae'r sefyllfa hon yn llai tebygol o ddigwydd ar gludiant sydd ar gyfer dysgwyr ysgol yn unig.
- 1.5 Bydd cludiant ysgol yn cynnwys grwpiau oedran cymysg o ddysgwyr, ond mae'r risg o drosglwyddo rhyngddyn nhw yn debygol o fod yn isel iawn, cyn belled a bod yr ystod o fesurau lliniaru ar waith.
- 1.6 Mae mesurau lliniaru pwysig yn cynnwys: hylendid, awyru, gwell cyfundrefnau glanhau gan gynnwys glanhau arwynebau'n rheolaidd a thrylwyr, a golchi dwylo'n rheolaidd.
- 1.7 Mae gyrrwyr a staff ar gludiant i'r ysgol mewn perygl cymharol uwch o ddod i gysylltiad, a dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag trosglwyddiad o'r awyr neu arwyneb trwy ymbellhau cymdeithasol lle bo'n ymarferol bosib a chyda'r defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).
- 1.8 Pan fo angen trafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys bysiau, tacsî, trê'n, fferi) ar gyfer plant oedran ysgol (hyd at 19 oed) fynychu'r ysgol, dylid cadw at y cyngor cyffredinol a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys yr orfodaeth i wisgo gorchuddion wyneb i rai dros 11 oed, ac ymbellhau cymdeithasol lle bo'n bosib. Dylid nodi y bydd y dysgwyr hynny sydd â hawl i gludiant ysgol am ddim sydd fel arfer yn teithio ar lwybr trafnidiaeth gyhoeddus, yn cael eu cludo ar gerbyd penodedig a gedwir ar gyfer dysgwyr ysgol yn unig lle bo hynny'n bosibl.
- 1.9 Dylai Awdurdodau Lleol ac ysgolion barhau i gydweithio â'r darparwyr cludiant er mwyn cynyddu capasiti cyn belled a bod hynny'n rhesymol bosib. Dylai cynlluniau osgoi, lle bo modd, cymysgu dysgwyr/myfyrwyr o wahanol ysgolion/colegau ar yr un cludiant.
- 1.10 Mae'r cyngor hwn yn cymryd na fydd waethygu sylweddoli yn lefelau cefndir yr haint ym mhobl Cymru fel mae'n cael ei fonitro gan fesurau 'torri cylched' ac ar systemau prydlon sy'n gweithio yn dda ar gyfer monitro, profi ac olrhain achosion tybiedig yn gyflym.
- 1.11 Gall rhagofalon gael eu llacio wrth i nifer yr achosion o Covid-19 leihau yng Nghymru. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd angen cryfhau neu ailgyflwyno mesurau os oes tystiolaeth o atgyfodiad neu yng ngoleuni achosion lleol. Os oes tystiolaeth berthnasol newydd arall gyda goblygiadau ar gyfer y cyngor hwn, yna bydd raid ei gymryd i ystyriaeth hefyd.
- 1.12 Os bydd llacio pellach ar y cyfyngiadau, yn cynnwys lleoliadau dan do a thwristiaeth yn golygu bod cynnydd yn yr achosion ym mis Awst a Medi, yna bydd angen defnyddio'r cyngor hwn yn hyblyg mewn ardaloedd lleol, yn ddibynnol ar y patrwm trosglwyddo lleol. Gallai hyn olygu fod angen ymbellhau os bydd nifer yr achosion yn cynyddu mewn ardaloedd lleol. Dylid gweithredu trwy ddefnyddio data ar drosglwyddo cymunedol i lywio asesiadau risg a gwneud penderfyniadau.
- 1.13 Mae Cell Ymgynghorol Dechnegol Plant ac Ysgolion Covid-19 (C+S TAC) wedi dweud, yn amodol ar gyfraddau cefndir isel y feirws Covid-19 ac i Brofi, Olrhain a Diogelu effeithiol a mesurau lliniaru fod ar waith, bod cydbwysedd y dystiolaeth yn awgrymu na ddylai fod angen ymbellhau rhwng plant mewn ysgolion cynradd.

- 1.14 Nid yw'r dystiolaeth mor amlwg ar gyfer dysgwyr hŷn, ond ar hyn o bryd rydym yn cefnogi'r un dull o weithredu i'w gymryd yn yr ysgolion uwchradd ar sail y cydbwysedd o risg yr ydym yn gwybod amdano ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru.
- 1.15 Dylai oedolion gadw at fesurau ymbellhau cymdeithasol o ddau fetr lle bo'n bosib, a rhwng oedolion a phlant sydd ddim yn perthyn i'r un aelwyd.
- 1.16 Gellir ystyried bod cludiant penodol i'r ysgol yn rhan o'r ystâd ysgol ehangach ac felly dylai'r holl fesurau lliniaru sy'n berthnasol yn yr ysgol hefyd fod yn berthnasol i gludiant penodedig i'r ysgol. Nid yw oedolion sy'n aelodau o'r cyhoedd yn teithio ar gludiant ysgol benodol, ac felly dylid defnyddio mesurau ymbellhau cymdeithasol sy'n ymwneud â phellter rhwng dysgwyr.
- 1.17 Mae mesurau lliniaru yn cynnwys: hylendid, awyru, gwell cyfundrefnau glanhau o fewn cludiant penodol i'r ysgol, gan gynnwys glanhau arwynebedd yn rheolaidd a thrylwyr, yn ogystal â golchi a diheintio dwylo'n rheolaidd.
- 1.18 Dylai ysgolion ymgysylltu gyda phob plentyn a pherson ifanc er mwyn sefydlu cyd-ddealltwriaeth a pherchnogaeth o reolau hylendid er mwyn gwarchod pawb, gan atgyfnerthu pwysigrwydd y negeseuon cyfrifoldeb cymdeithasol hyn yn rheolaidd.
- 1.19 Dylid golchi dwylo/neu ddiheintio dwylo yn rheolaidd trwy gydol y dydd gan gynnwys bob tro y byddant yn dod i mewn i adeilad yr ysgol.
- 1.20 Dylid neilltuo seddi penodol i blant oedran ysgol i'w defnyddio'n rheolaidd cyn belled ag y bo modd.
- 1.21 Ni chaniateir bwyta nac yfed – ac yn bendant ni ddylid rhannu unrhyw fwyd a diod (gan gynnwys byrbrydau) ar gludiant i'r ysgol.
- 1.22 Os oes gan unrhyw blentyn, person ifanc neu aelod o'u cartref unrhyw symptomau o goronafeirws, nid ddylent fynd ar gludiant ysgol benodol.
- 1.23 Os yw plentyn neu berson ifanc yn datblygu symptomau tra bydd yn yr ysgol, yna dylid eu hanfon gartref, ond ni ddylent deithio ar y cludiant ysgol rheolaidd. Rhaid i'r ysgol gysylltu â'r rhiant/gofalwr i wneud trefniadau priodol a diogel i gasglu'r plentyn/person ifanc. Mewn sefyllfa fel hyn, dylai'r plentyn/person ifanc sydd â symptomau ddefnyddio gorchudd wyneb er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo.
- 1.24 Yn aml, mae plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol angen cymorth agos gan oedolion wrth deithio. Yn gyffredinol, dylai'r oedolion hyn fod yn ymwybodol iawn o symptomau, a defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol bob amser
- 1.25 Mae gyrwyr a staff ar gludiant cyhoeddus, ac i raddau llai ar gludiant i'r ysgol, mewn perygl cymharol uwch o gael eu hamlygu, felly dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag trosglwyddiad o'r awyr neu arwynebedd. Mewn rhai sefyllfaoedd, gellir gwneud newidiadau o fewn y cerbyd, megis gosod bariau gwarchod neu sgriniau diogelwch rhwng y gyrrwr a'r teithwyr. Mae cyfrifoldeb y penderfyniadau ar gyfer newidiadau o fewn cerbydau gan yr awdurdodau trwyddedu perthnasol, gweithredwyr, cwmni neu'r unigolyn yn seiliedig ar eu hasesiad risg eu hunain.
- 1.26 Dylai gyrwyr a chynorthwyrwyr staff eraill ddilyn canllawiau hylendid cyffredinol. Os nad yw'n bosib golchi dwylo, yna dylid defnyddio diheintydd dwylo yn gyson yn ystod y siwrnai, yn benodol ar ôl cyflawni unrhyw dasg sy'n golygu cyffwrdd arwyneb a fyddai wedi cael ei gyffwrdd gan rywun arall.
- 1.27 Ni ddylai gyrwyr nac aelodau eraill o staff barhau i weithio os oes ganddynt symptomau, neu os oes gan rywun ar eu haelwyd symptomau. Dylent wneud trefniadau priodol i fynd adref cyn gynted ag y bo modd os ydynt yn arddangos symptomau yn y gwaith, ac yna dilyn canllawiau Profi, Orlhain a Diogelu.
- 1.28 Dylai plant oedran ysgol ar gludiant cyhoeddus ddilyn y canllawiau generig gan Drafndiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwisgo gorchudd wyneb i blant dros 11 oed, ac ymbellhau cymdeithasol lle bo hynny'n bosibl
- 1.29 Dylai ysgolion gydweithio gyda phob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu eu galluoedd fel dinasyddion cyfrifol yn arbennig wrth baratoi i deithio ar drafndiaeth gyhoeddus. Dylid annog

defnydd effeithiol o ddiheintyddion dwylo, cadachau sychu a biniau di-gyffwrdd fel modd hanfodol i leihau trosglwyddiad y feirws.

- 1.30 Dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda darparwyr cludiant er mwyn cynyddu capasiti a chyflwyno seddi neu gerbydau penodedig ar gyfer plant oed ysgol lle bo'n bosib, fel y gellir grwpio plant o oedran ysgol gyda'i gilydd.
- 1.31 Argymhellir bod Awdurdodau Lleol yn cydweithio gyda darparwyr cludiant er mwyn cael sicrwydd bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith.
- 1.32 Bydd gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol i ddysgwyr ysgol uwchradd (ac eithrio'r rhai sydd wedi eu cynghori'n glinigol i beidio gwisgo gorchudd) wrth deithio ar gludiant ysgol benodedig
- 1.33 Mae gyrwyr a staff ar gludiant ysgol mewn perygl cymharol uwch o gael eu hamlygu, felly dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag trosglwyddiad o'r awyr neu arwynebedd a defnyddio mesurau lliniaru megis sgriniau Perspex a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) fel bo'r angen.
- 1.34 Ar drafnidiaeth gyhoeddus dylai oedolion o'r un aelwyd sy'n teithio gyda phlant o oed ysgol wisgo gorchuddion wyneb. Dylai oedolion sy'n teithio gyda phlentyn mewn sefyllfa gwaith ddefnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol a argymhellir. Ym mhob achos, anghenion a lles y plentyn fydd yn penderfynu os oes angen addasu'r anghenion.



## 2. Cyngor Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau risgiau COVID-19

Rhaid i Awdurdodau Lleol ysgolion a lleoliadau gydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch, sy'n mynnu eu bod yn asesu risgiau a rhoi mesurau rheoli cymesur ar waith.

Rhaid i Awdurdodau Lleol a'u gweithredwyr Ar y cyd â'u cyflogwyr dylai ysgolion adolygu eu hasesiadau risg iechyd a diogelwch yn drylwyr ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r undebau llafur a llunio cynlluniau ar gyfer tymor yr hydref sy'n rhoi sylw i'r risgiau a ganfuwyd drwy ddefnyddio'r system o reolaethau a nodir isod. Mae mesurau hanfodol yn cynnwys:

- rhaid i bobl sy'n sâl gyda symptomau COVID-19 aros gartref
- hylendid dwylo ac anadlol cadarn gan gynnwys awyru
- parhau gyda'r trefniadau glanhau ychwanegol
- ymwneud yn weithredol â strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu
- ystyried yn ffurfiol sut mae lleihau cysylltiadau a chynyddu'r pellter cymdeithasol a chorfforol rhwng y rheini sydd yn yr ysgol pan fo'n bosibl a lleihau'r potensial am halogiad i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol.

Bydd sut caiff nifer y cysylltiadau rhwng dysgwyr, rhwng dysgwyr a staff a rhwng staff eu lleihau yn dibynnu ar amgylchiadau'r ysgol a dylent gynnwys:

- grwpio dysgwyr gyda'i gilydd
- osgoi cyswllt rhwng gwahanol grwpiau gymaint â phosibl
- staff i gadw pellter oddi wrth y dysgwyr a'r staff eraill gymaint â phosibl.

### 3. Asesu Risg a Mesurau Diogelu

#### Asesu Risg

Rhaid i awdurdodau lleol, (fel y cyflogwyr) a gweithredwyr ddiogelu pobl rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu staff, dysgwyr ac eraill rhag COVID-19 o fewn trafndiaeth ysgol.

Fel rhan o'r gwaith o gynllunio i ddychwelyd yn llawn yn ystod tymor yr hydref, mae'n ofyniad cyfreithiol i Awdurdodau Lleol a Gweithredwyr ailedrych ar eu hasesiadau risg a'u diweddarau drwy adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu hyd yma a'r arferion maent eisoes wedi'u datblygu. Bydd hyn yn gyfle i ystyried y risgiau ychwanegol a'r mesurau rheoli i'w rhoi ar waith ar gyfer dychwelyd i gapasiti llawn yn ystod tymor yr hydref.

Mae templed cenedlaethol asesu risg wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod Cymru, lle bo'n ymarferol yn mabwysiadu dull cyffredinol o reoli risg COVID-19 ar gludiant ysgol. Mae Asesiad Risg Cyngor Sir Penfro wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Dylai Awdurdodau Lleol gyfleu'r mesurau rheoli i ysgolion, gweithredwyr a rhieni er mwyn bod yn glir ynghylch sut y bydd y trefniadau diwygiedig yn gweithio'n ymarferol a chael trefniadau gweithredol ar waith i fonitro bod y rheolaethau yn:

- Effeithiol
- Gweithio yn ôl y bwriad
- Cael eu diweddarau'n briodol gan ystyried unrhyw faterion sy'n codi a newidiadau mewn cyngor iechyd y cyhoedd

#### Mesurau Diogelu

Ar ôl asesu'r risgiau, dylai'r Awdurdod Lleol a'r Gweithredwyr fynd ati i'r graddau sy'n rhesymol bosibl i weithio drwy'r mesurau canlynol, gan eu mabwysiadu mewn ffordd sy'n rhoi sylw i'r risg a nodwyd yn eu hasesiad, sy'n gweithio i'w lleoliad ac yn caniatáu iddynt gyflawni i'r holl ddysgwyr. Os bydd yr Awdurdod Lleol a'r gweithredwyr yn dilyn y canllawiau a nodir yma, byddant yn lleihau'r risgiau yn eu lleoliad ac yn creu amgylchedd sy'n fwy diogel yn ei hanfod.

#### Mesurau

Dyma'r gyfres o gamau y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r gweithredwyr eu cymryd, pan fo'n bosibl:

#### Atal

- Lleihau'r cyswllt rhwng pob unigolyn pan fo'n bosibl. I ddysgwyr bydd y pwyslais ar ymbellhau cymdeithasol oddi wrth oedolion a chreu grwpiau dysgwyr a sicrhau bod y grwpiau hynny yn cael eu cadw ar wahân;
- Dylai'r un staff fod yn gyfrifol am yr un daith lle bo'n bosibl. Dylai'r holl staff, cyn belled ag y bo modd, ddilyn y mesurau ymbellhau cymdeithasol/pellter corfforol oddi wrth ddysgwyr a staff cludiant a staff ysgol eraill;
- Sicrhau bod y staff, y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr yn deall yn iawn na chaiff unrhyw aelod staff na dysgwr sydd â symptomau COVID-19 bosibl ddod i leoliad yr ysgol, ond bod yn rhaid iddo aros gartref a hunanynysu, trefnu prawf COVID-19 a rhoi gwybod i'r ITU a'r ysgol.;

- Yn ogystal, os bydd unrhyw aelod o deulu/aelwyd unrhyw aelod o'r staff neu ddysgwr yn dangos symptomau COVID-19 posibl, ni chaiff yr aelod staff neu'r dysgwr ddod i leoliad yr ysgol, ond rhaid iddo aros gartref a chychwyn cyfnod o hunan-ynysu. Unwaith eto, dylid rhoi gwybod i'r ITU a'r ysgol;
- Os bydd aelod staff neu ddysgwr yn mynd yn sâl yn lleoliad yr ysgol gyda symptomau COVID-19 posibl, dylid ei anfon adref ar unwaith, lle dylai hunan-ynysu a threfnu prawf COVID-19. Hyd nes iddo adael lleoliad yr ysgol (yn achos dysgwr sy'n aros i'w riant/gofalwr ei gasglu), dylid cadw'r cysylltiad rhyngddo â phob unigolyn arall yn y lleoliad i'r lefel isaf bosibl. Os oes modd, dylid sicrhau ei fod mewn ystafell arall hyd nes y bydd yn gadael y lleoliad.
- Golchi dwylo'n drylwyr yn amlach nag arfer;
- Sicrhau hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa';
- Sicrhau glanhau gwell, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd, gan ddefnyddio cynnyrch safonol fel glanedyddion a diheintyddion.
- Pan fydd angen gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol (PPE) fel y nodir yn nes ymlaen yn y canllawiau.
- Sicrhau awyru priodol pan fo'n bosib.

### **Ymateb i unrhyw haint, ymgysylltu gyda'r strategaeth Profi Orlhain Diogel**

Fe gafodd y strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu, a gyhoeddwyd ar 13 Mai, ei roi ar waith ledled Cymru o 1 Mehefin ymlaen, ac fe fydd yn elfen hanfodol ar gyfer ehangu gweithrediad ysgolion. Mae'r strategaeth hon yn gosod y cam nesaf yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r coronafeirws; profi pobl sydd â symptomau yn y gymuned, olrhain y rhai sydd wedi dod i gysylltiad agos gyda phobl sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws, ac amddiffyn teulu, ffrindiau a'n cymunedau drwy hunan-ynysu.

Mae Profi, Orlhain a Diogelu yn gweithio trwy:

- brofi pobl sydd â symptomau coronafeirws, yn gofyn iddynt hunanynysu oddi wrth deulu, ffrindiau a'u cymuned wrth gymryd y prawf ac aros am y canlyniad. Gall pobl wneud cais am brawf iddynt eu hunain neu rywun sy'n byw yn yr un tŷ sy'n arddangos symptomau. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant yn cynnwys plant dan 5 oed. Ceir gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer staff a rhieni ar sut i wneud cais am brawf ar <https://gov.wales/apply-coronavirus-test>
- Orlhain y bobl sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r rhai sydd wedi cael eu profi'n gadarnhaol ar gyfer y feirws, ac yn gofyn iddynt ragofalu trwy hunanynysu. Ceir gwybodaeth bellach ar olrhain a'r ffordd y mae'n gweithredu ar <https://gov.wales/contact-tracing-your-questions>
- Sicrhau os nad yw'r symptomau oherwydd y coronafeirws, gall unigolion a'u cysylltiadau ddychwelyd i'w bywyd arferol cyn gynted ag y bo modd;
- Darparu cyngor a chanllawiau, yn arbennig os oedd y person neu eu cysylltiadau sy'n arddangos symptomau yn perthyn i grŵp oedd yn 'gwarchod' neu yn perthyn i grŵp risg uchel.

Trwy leihau trosglwyddo yn ein cymunedau, adnabod ac ynysu'r rhai sydd mewn perygl o ddatblygu COVID-19 ar unwaith, yn dilyn eu cyswllt agos ag unigolyn sy'n wedi profi'n positif (e.e. cyswllt hysbys neu aelod o'r teulu), byddwn yn cefnogi agoriad ehangach ysgolion, colegau a lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Dylai ysgolion a lleoliadau atgyfnerthu'r negeseuon hyn, ac yn benodol, atgoffa pawb sy'n dangos unrhyw un o symptomau COVID-19 i hunanynysu ar unwaith ac archebu prawf. Dylai unrhyw un sy'n byw gyda rhywun sydd wedi profi'n positif am COVID-19 hefyd hunanynysu. Lle y bo'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol i ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o unrhyw un sy'n dod i mewn i grŵp cyswllt (e.e. timau ymyrraeth). Gall hwn fod yn llyfr syml ymhob ystafell ddsbarth yn cofnodi unrhyw un sy'n dod i mewn o'r 'tu allan'.

Os bydd prawf cadarnhaol, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu gyda'r person a brofwyd i helpu i nodi cysylltiadau posibl. Yna bydd ail swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu gyda'r rheiny a'u cynghori i hunanynysu am 14 niwrnod o'r cyswllt diwethaf â'r sawl a brofodd yn gadarnhaol. Dîm ond os byddant yn datblygu symptomau y bydd yn ofynnol i'r bobl hyn gymryd y prawf. Bydd tîm GIG TTP yn cael gwybod yn awtomatig am ganlyniad prawf cadarnhaol trwy system CRM. Nid yw'n ofynnol i'r ysgol/lleoliad i hysbysu'r TTP oni ofynnir yn benodol iddynt ddilyn clwstwr a reolir gan Dîm Rheoli Digwyddiadau. Os bydd achos o'r fath yn digwydd, bydd yr ysgol/lleoliad yn cael person cyswllt TTP penodedig sy'n rheolir clwstwr, a gellir adrodd unrhyw achos newydd neu fynegi unrhyw bryderon megis nifer cynyddol o achosion posibl

Y rhai a ystyrir fel cysylltiadau posib yw pobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r person sydd wedi profi'n gadarnhaol yn ystod cyfnod sy'n dechrau hyd at ddau ddiwrnod cyn i'r symptomau ddechrau ac yn dod i ben pan oedd yr achos yn cychwyn hunanynysu. Mae hyn yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bresennol o'r prif gyfnod heintus.

Diffinnir cyswllt fel unrhyw un sydd wedi cael cyswllt agos yn ystod y cyfnod, yn benodol:

- o fewn un metr i'r person sydd wedi profi'n positif ac sydd wedi pesychu arnynt, wedi cael sgwrs wyneb yn wyneb, cyswllt corfforol croen â chroen, neu fathau eraill o gyswllt â nhw o fewn un metr am 1 munud neu fwy
- cyswllt o fewn 2 fetr i'r person sydd wedi profi'n positif am fwy na 15 munud
- wedi teithio mewn cerbyd gyda pherson sydd wedi profi'n positif.

Lle bo staff wedi cadw pellter cymdeithasol/ffisegol ac wedi glynu at fesurau hylendid yn ystod gwaith a, lle bo angen wedi defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol, neu wedi gweithio y tu ôl i sgrin neu bartisiwn pwrpasol, yna ni fyddent yn cael eu hystyried yn rhan o'r ymarfer olrhain cyswllt ar gyfer y pwrpasau hyn.

Nid yw prawf positif ar safle yn golygu bod yn rhaid cau'r safle. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau bellach yn rhan o'r 'normal newydd' ac os yw'r ysgolion a'r lleoliadau yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes angen pryderu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael yma <https://gov.wales/guidance-testing-and-contact-tracing-education-settings>

### **Rheoli achosion cadarnhaol o COVID-19 yng nghymuned yr ysgol**

Gan adeiladu ar y Cynllun Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (2020) mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu cyngor penodol mewn perthynas â ymchwilio a rheoli clystyrau ac achosion o COVID-19 mewn lleoliadau addysgol <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/information-for-healthcare-workers-in-wales/>.

Mae'r cyngor yn amlinellu pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn gwarchod unigolion a chymdeithasau lle mae clystyrau ac achosion yn digwydd, yn ogystal â lleihau'r lledaeniad i gymunedau eraill.

1. Nodi achosion a chlystyrau posibl;
2. Casglu gwybodaeth sylfaenol mewn clystyrau;
3. Gwaith cychwynnol i reoli clwstwr ac asesu'r risg;
4. Nodi digwyddiad;
5. Rheoli digwyddiad;
6. Uwch gyfeirio.

### **Atal**

Sicrhau nad yw unrhyw aelod staff neu ddysgwyr sydd â symptomau neu sy'n cael canlyniad positif am COVID-19, neu sy'n byw gyda rhywun sydd â'r symptomau neu sy'n ganlyniad positif am COVID-19, yn

dod i leoliad yr ysgol. Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai dysgwyr na staff fynychu'r ysgolion /lleoliadau os ydynt:

- Yn teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COVID-19. Dylent aros gartref a hunanynysu a threfnu prawf COVID-19;
- Wedi cael canlyniad positif am COVID-19;
- Byw mewn tŷ lle mae rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi profi'n positif am COVID-19
- Rhaid i bob ysgol a lleoliad ddilyn y broses hon a sicrhau bod yr oll staff yn gwybod amdani.

Dylai ysgolion a lleoliadau gael polisi a gweithdrefnau uwch gyfeirio clir ar waith os bydd dysgwyr neu staff yn dechrau dangos symptomau o COVID-19 pan fyddant ar y cerbyd cludiant. Mae angen i'r staff, y dysgwyr (pan fyddant yn gallu) a'r rhieni/gofalwyr ddeall y rhain yn llawn. Dylid cadw'r rheini sydd â symptomau ar wahân nes bod modd i rywun eu casglu a mynd â nhw adref. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod mewn ystafell ar wahân, wedi'u goruchwyllo o ddau fetr i ffwrdd pan fo'n bosibl, ond gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda dysgwyr iau. Os oes angen cyngor clinigol dylen nhw (neu aelod o'r staff neu'r rhiant/gofalwr) fynd ar-lein i GIG 111 Cymru (neu ffonio 111 os nad oes mynediad i'r rhyngwyd).

Os bydd dysgwyr neu staff sydd â symptomau wedi cyffwrdd unrhyw arwynebau, dylid glanhau'r arwynebau hynny'n ofalus ac yn drylwyr. Mae rhagor o ganllawiau glanhau ar gael ym mhwynt 4 isod.

Dylai unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 aros gartref a dechrau hunanynysu am y cyfnod a nodir yn y canllawiau wrth drefnu i gael prawf. Rhaid i unrhyw un sy'n byw gyda rhywun sy'n dangos symptomau COVID-19, neu sydd mewn aelwyd estynedig gyda rhywun sydd â symptomau, hefyd hunanynysu adref am y cyfnod priodol a nodir yn y canllawiau ar hunanynysu

Y cyngor ar hyn o bryd yw nad oes angen sgrinio tymheredd. Gall rhieni/gofalwyr dysgwyr gadw llygad am arwyddion o dymheredd uchel. Ni fydd sgrinio yn dod o hyd i bob achos o COVID-19 a gallai'r broses o fesur tymheredd gynyddu risg y staff o 9 drosglwyddo'r haint, yn ogystal â gwneud i'r dysgwyr boeni neu bryderu. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar hyn. Dylai staff wrth gwrs gadw llygad am newidiadau yn nhymheredd dysgwyr ac am arwyddion o wres.

### **Golchi'r dwylo'n drylwyr yn amlach nag arfer.**

Mae hi'n hawdd lladd y feirws COVID-19 pan fydd ar y croen. Mae modd gwneud hyn gyda dŵr sy'n rhedeg a sebon neu hylif diheintio dwylo. Gyda chefnogaeth eu hawdurdod lleol mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau bod dysgwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, gan gynnwys pan fyddant yn mynd ar a dod oddi ar y cerbydau cludiant i'r ysgol a chyn mynd i mewn ac wrth adael adeilad yr ysgol. Rhagwelir y bydd glanhau dwylo'n drylwyr yn rhan bwysig o'r drefn am gyfnod amhenodol. Gall pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu cynnwys:

- Oes digon o gyfleusterau golchi dwylo neu orsafoedd diheintio dwylo gan y gweithredwyr er mwyn i'r holl ddysgwyr a staff allu golchi eu dwylo'n rheolaidd;
- Goruchwyllo'r dysgwyr pan fyddant yn defnyddio hylif diheintio dwylo o ystyried y risgiau sydd ynghlwm wrth ei lyncu. Dylid parhau i helpu dysgwyr ifanc a rheini sydd ag anghenion cymhleth i olchi eu dwylo'n drylwyr;
- Ymgorffori'r arferion hyn yn niwylliant y staff a'r dysgwyr, gan osod disgwyliadau o ran ymddygiad i'w cefnogi a helpu'r dysgwyr iau a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth i ddeall bod angen eu dilyn;
- Dylid gwagu'r biniau'n ddyddiol

**Sicrhau hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.**

'Mae'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa' yn dal yn bwysig iawn, felly mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau bod ganddynt ddigon o finiau ar y cerbydau i gefnogi'r dysgwyr a'r staff i ddilyn y drefn hon. Fel gyda golchi dwylo, raid i Awdurdodau Lleol, ysgolion a gweithredwyr sicrhau bod y dysgwyr iau a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth yn cael cymorth i wneud hyn yn iawn. Mae'n rhaid i'r holl ddysgwyr ddeall bod hyn bellach yn rhan o sut mae lleoliadau'n gweithredu. Efallai y bydd hi'n anodd i rai dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth i gadw hylendid anadlol da i'r un graddau â'u cyfoedion. Dylid ystyried hyn mewn asesiadau risg er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn a'r staff sy'n gweithio gyda nhw, ac nid yw hyn yn rheswm dros beidio â darparu addysg wyneb yn wyneb i'r dysgwyr hyn.

### **Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd, gan ddefnyddio cynnyrch safonol fel glanedyddion a diheintyddion.**

Dylai Awdurdodau Lleol a Gweithredwyr ddilyn y cyngor glanhau diweddaraf ar gyfer lleoliadau. Dylid glanhau pwyntiau cyffwrdd sy'n cael eu defnyddio'n aml yn drylwyr ar ôl pob siwrnai a dylid glanhau bob cerbyd yn drylwyr ar ddiwedd pob dydd.

### **Profi Llif Unffordd**

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn cychwyn ar raglen o brofion Covid-19 i bobl asymptomatig mewn lleoliadau addysg a gofal plant ledled Cymru. Cytunwyd bellach y gall staff trafndiaeth ysgol hefyd gael eu cynnwys yn y rhaglen profi.

Ynghyd â'r mesurau diogelu cynradd rydym yn eu cymryd, bydd profi'n ein caniatáu i gymryd rhagor o fesurau i'ch helpu chi ac aelodau staff eraill i barhau i weithio mewn amgylchedd mor ddiogel â phosib. Gallai hyd at un ym mhob tri o bobl â COVID-19 gael y feirws heb ddangos symptomau ac felly gallant fod yn trosglwyddo'r feirws heb yn wybod iddynt.

Mae mynd i'r afael â'r pandemig yn golygu nodi unigolion asymptomatig, heintus. Mae profion Dyfeisiau Profi Llif Unffordd wedi cael eu defnyddio'n eang ac yn llwyddiannus i ganfod COVID-19 mewn unigolion asymptomatig. Mae cyflymder a chyfleustra profion Dyfeisiau Profi Llif Unffordd yn cefnogi canfod y feirws mewn unigolion asymptomatig na fyddent fel arall yn cael eu profi. Maent wedi'u cymeradwy'n glinigol ac yn hanfodol yn y frwydr yn erbyn y feirws.

Oherwydd bod y profion yn fwy sensitif gyda llwythi feirysol uwch, mae yna berygl o ddychwelyd prawf negyddol pan fo llwythi feirysol yn isel (e.e. yng nghamau cynnar yr haint). Dyma pam yr argymhellir cymryd dau brawf Dyfeisiau Profi Llif Unffordd 3-4 diwrnod ar wahân, neu brofion rheolaidd, i wella canfyddiad drwy ddod ar draws achosion nad ydynt yn cael eu canfod yn ystod y prawf cyntaf ac er mwyn dal unrhyw heintiau newydd.

Os ydych yn profi'n bositif gan ddefnyddio Dyfeisiau Profi Llif Unffordd, mae'n debygol eich bod yn heintus, ac mae'n rhaid i chi hunan-ynysu a chael prawf adwaith cadwynol polymerasau. Caiff y broses olrhain a chysylltu ei sbarduno yn dilyn Prawf Dyfeisiau Profi Llif Unffordd positif a bydd gofyn i'ch cysylltiadau agos hunan-ynysu nes eich bod yn derbyn eich canlyniad prawf adwaith cadwynol polymerasau, os yw'r prawf adwaith cadwynol polymerasau yn bositif yna bydd yn rhaid i chi a'ch cysylltiadau agos hunan-ynysu. Ni ddylai canlyniad Prawf Dyfeisiau Profi Llif Unffordd negatif olygu y dylech ymlacio ac anwybyddu camau cadw pellter cymdeithasol neu fesurau atal y feirws eraill â'r bwriad o leihau trosglwyddo - offeryn ychwanegol yw Dyfeisiau Profi Llif Unffordd sy'n cyfrannu at leihau'r risg.

## **Sut mae'r profion yn gweithio**

Os ydych yn cytuno i gymryd rhan, byddwch yn gallu casglu citiau profi llif unffordd o'ch gweithle (ysgol, coleg, lleoliad gofal plant) a fydd yn eich caniatâu i hunan-brofi o'ch cartref. Bydd angen i drefniadau ychydig yn wahanol fod ar waith i ofalwyr plant, a allai gynnwys casglu profion o leoliad canolog yn eu hardal. Byddech yn cynnal prawf cyn dod i'r gwaith, ddwywaith yr wythnos. Nid oes angen prosesu'r Dyfeisiau Profi Llif Unffordd mewn labordy a gallant ddarparu canlyniad cyflym mewn oddeutu 30 munud. Mae canllawiau cynhwysfawr ar hunan-brofi yn y daflen 'Cyfarwyddiadau Defnyddio' sy'n dod gyda'r cit profi. Mae yna ragor o adnoddau a chanllawiau ar Blatfform Dogfennau Ar-lein Llywodraeth Cymru y mae gennym ni, fel lleoliad, fynediad iddynt.

Unwaith y bydd prawf wedi cael ei wneud, byddwch yn cofnodi canlyniad y prawf ar-lein yn [www.gov.uk/report-covid19-result](http://www.gov.uk/report-covid19-result) a bydd angen i chi hefyd ddweud wrthym, fel lleoliad, am ganlyniad y prawf. Byddwch yn derbyn hysbysiad (drwy neges destun/e-bost] o ganlyniad positif neu negatif gan wasanaeth Profi ac Orlhain y GIG. Mae'r profion yn rhad ac am ddim a byddant yn cael eu darparu gan y lleoliad.

## **Caniatâd / Preifatrwydd**

Unwaith y byddwch wedi deall y broses brofi ac wedi darllen yr hysbysiad preifatrwydd, os ydych yn dewis cymryd rhan, rydych yn ymrwymo i hunan-weinyddu'r prawf a darparu eich canlyniadau. Dylai lleoliadau sicrhau bod staff yn darparu eu canlyniadau (positif, negatif neu ddim canlyniad) i wasanaeth Profi ac Orlhain y GIG drwy'r dudalen hunan-adrodd gov.uk. Dylai canlyniadau gael eu rhannu gyda'r lleoliad i gefnogi'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau lleol.

Gyda'n mesurau diogelu cynradd a phroffion, byddwn yn helpu i leihau'r lledaeniad mewn lleoliadau addysg a gofal plant. Felly, rydym yn annog yn gryf i'r holl staff gymryd y profion. Fodd bynnag, gall staff nad ydynt yn cymryd rhan ddal i fynychu eu gweithleoedd neu leoliadau os nad oes ganddynt symptomau.


Dylai pobl sy'n gwrthod cymryd rhan yn y rhaglen brofi ddilyn y canllawiau cenedlaethol arferol ar hunan-ynysu a dylai unrhyw sydd â symptomau gael prawf.

Byddwn yn cefnogi'n gweithredwyr drwy gydol y rhaglen ond rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/8b9f2efc-5dd6-497f-8dde-3822223ec356/assetbox.html>

## 4. Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Gweithredwyr Cludiant Ysgol parthed Coronafeirws (Covid-19)

- 4.1 Bydd diogelwch staff, dysgwyr a'r cyhoedd yn hollbwysig
- 4.2 Dylai gweithredwyr fod yn ymwybodol o gyngor gan Lywodraeth Cymru 'Ganllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogaion: Covid -19' sydd i'w gael ar <https://gov.wales/workplace-guidance-employers-and-employees-covid19>
- 4.3 Ni ddylai Gyrwyr, Cynorthwyyr Teithio na dysgwyr deithio ar gludiant os ydynt yn teimlo'n sâl, yn enwedig os oes ganddynt coronafeirws (COVID-19) sy'n cynnwys, peswch newydd, parhaus, gwres uchel, neu golli blas neu arogl, neu os ydynt yn byw mewn cartref gyda rhywun yn dangos unrhyw un o'r symptomau hyn – dylent hunanynysu ac aros gartref. Dylai unrhyw ddysgwr sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol gael eu cludo adref gan eu rhiant/gofalwr (D.S. dylai fod gan rieni drefniadau cludiant wrth gefn i wneud hyn).
- 4.4 Mae'n bosib y na fydd plant sy'n agored i niwed clinigol eithriadol yn mynychu'r ysgol; dylai rhieni i blant sydd yn agored i niwed clinigol (ond ddim yn agored i niwed clinigol eithriadol) oherwydd coronafeirws ddilyn y cyngor meddygol parthed mynychu ysgol.
- 4.5 Dylid dilyn cyngor Covid-19 penodol y Llywodraeth yn y sector trafndiaeth sydd ar gael yma <https://gov.wales/coronavirus-travel>.
- 4.6 Bydd gorchuddion wyneb yn orfodol ar gerbydau cludiant o'r penodedig o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd a staff cludiant. Rhaid i weithredwyr sicrhau bod ganddynt gyflenwad o orchuddion at ddefnydd brys i ddysgwyr sy'n ceisio mynd ar y bws heb orchudd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn parhau'n glir mai'r ffordd fwyaf effeithiol amddiffyn eich hun ac eraill rhag heintiau yw dilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol, osgoi cyffwrdd ag arwynebau a'ch wyneb a golchi eich dwylo'n rheolaidd. Efallai na fydd plant ifanc a'r rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn llwyddo i wisgo'r gorchuddion yn ddiogel, a gallent gael eu heithrio rhag eu gwisgo, felly mae'n bwysig bod pawb arall sy'n teithio ar y cerbyd yn parchu'r dysgwyr hyn.
- 4.7 Dylai gweithredwyr sicrhau bod pob pwynt cyffwrdd ar gerbydau cludiant ysgol wedi cael eu glanhau i amddiffyn rhag Coronafeirws/Covid-19 cyn ac ar ôl pob siwrnai newydd – mae hyn yn cynnwys dolenni drysau, allweddi, rheiliau llaw, cefn cadeiriau, gwregysau diogelwch, offer llywio ayb.
- 4.8 Bydd ymbellhau cymdeithasol rhwng y gyrrwr a'r dysgwyr yn golygu gostyngiad bach yng nghapasiti'r cerbyd gyda'r rhes flaen o seddi ar bob cerbyd prif ffrwd mawr allan o ddefnydd. Cyfarwyddir dysgwyr i beidio ag eistedd yn y sedd sydd wedi'i marcio â chylch coch ar y cynllun isod. Mewn cerbydau llai fel tacsis, ni fydd yn ymarferol i weithredu ymbellhau cymdeithasol ac felly defnyddir pob sedd.



- 4.9 Bydd ysgolion yn ailagor i ddysgwyr ar gyfer dechrau Tymor yr Hydref ar ddydd Iau 3 Medi 2020, a bydd gan yr ysgolion yr hyblygrwydd i gael rhai grwpiau blwyddyn yn unig i mewn am y dyddiau



- cyntaf, a disgwylir iddynt fod yn llawn erbyn dydd Llun 14 Medi 2020. Gwerthfawrogir na fydd angen cludiant ar bob dysgwr o grwpiau blwyddyn penodol. Anogir ysgolion a rhieni i roi gwybod i'r ITU am unrhyw ddysgwr na fyddant yn bendant yn defnyddio cludiant i'r ysgol ym mis Medi.
- 4.10 Dylai dysgwyr sy'n aros am fysiau wneud hynny'n ddiogel, a chyfrifoldeb rhiant yw hyn. Dylid mynd ar y bws un ar y tro, gyda'r sedd wag agosaf yng nghefn y bws i'w defnyddio gyntaf; wrth ddod oddi ar y bws un wrth un, dylai'r rhai sy'n eistedd yn y seddi blaen fynd oddi ar y bws yn gyntaf, a gweithio am yn ôl i'r seddi cefn (h.y. – fel nad yw dysgwyr sy'n cerdded lawr yr eil yn pasio unrhyw ddysgwr eraill sy'n eistedd). Rhaid cadw at y rheolau hyn ar y ffordd i, ac o'r ysgol. Dylai'r gyrwyr gwyno am unrhyw ddysgwr sydd ddim yn glynu at y canllawiau hyn trwy'r sianeli arferol.
  - 4.11 Os yw dysgwyr ysgolion cynradd yn cael anhawster gyda'r gwregys diogelwch, yna dylai'r gyrrwr gynnig arweiniad llafar a chefnogaeth o bell - dylai'r gwregysau fod wedi eu haddasu ymlaen llaw at ddefnydd y dysgwr.
  - 4.12 Dylid defnyddio ymbellhau cymdeithasol lle bo'n bosibl mewn hwb cludiant/ar safle'r ysgol pan fo nifer o gerbydau yn bresennol lle mae angen llwytho a dadlwytho - wrth fynd ar y bws mewn hwb, gall gyrwyr sefyll 2 fetr i ffwrdd o'r dysgwyr/teithwyr; ni ddylai gyrwyr ymgynnull; efallai y bydd ysgolion am oruchwylio dadlwytho/llwytho ar y safle.
  - 4.13 Pan fo cludiant 'bwydo' yn cael ei ddarparu, dylai'r gweithredwr gysylltu â'r ITU er mwyn trafod yr opsiynau sydd ar gael, gall yr ITU ystyried trefniadau diwygiedig, ac efallai mai un ohonynt fydd yn darparu'r cludiant yn uniongyrchol i'r gyrchfan derfynol ac i'r gwrthwyneb ar y daith yn ôl.
  - 4.14 Dylai darparwyr sicrhau bod y cerbydau wedi'i awyru yn dda, cymaint ag sy'n ymarferol bosibl wrth gludo teithwyr.
  - 4.15 Dylid darparu hylifau glanhau/cadachau/menig untro a bin gwastraff diogel er mwyn gwaredu unrhyw eitem lanhau, neu hances bapur neu Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) at ddefnydd yn ystod taith, gyda phob cerbyd i'w 'lanhau'n ddwfn ar ddiwedd pob diwrnod.
  - 4.16 Dylai'r hol staff a'r dysgwyr gynnal hylendid dwylo da (e.e. golchi dwylo gyda dŵr a sebon, neu ddiheintydd dwylo gydag alcohol, yn arbennig ar ddechrau ac ar ddiwedd siwrnai), osgoi cyswllt dwylo gyda'r llygaid, trwyn, a'r geg, a defnyddio hances boced wrth besychu a thisian (neu o leiaf pesychu/tisian i mewn i'r penelin) gan waredu'r hances boced mewn bin cyn gynted ag y bo modd. Dylid sicrhau bod diheintydd dwylo ar gael i ddysgwyr wrth iddynt fynd mewn i'r cerbyd gyda' anogaeth gan y Gyrrwr/PA ac arwyddion yn eu hannog i'w ddefnyddio.
  - 4.17 Dylai staff pob gweithredwr, yn cynnwys Gyrwyr, Cynorthwyrwyr Teithio a Glanhawyr fedru cael mynediad i'r holl gyfarpar angenrheidiol sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Mae mwy o fanylion i'w gael yn yr asesiad risg ar gyfer darpariaeth cludiant ysgol yn ystod pandemig Covid-19.
  - 4.18 Er mwyn cynnal protocolau pellhau cymdeithasol ar gerbydau, dim ond os yw'n amlwg y gellir ei adnabod o'r tocynnau a gyhoeddwyd y bydd seddi sbâr ar gael ar lwybr penodol y bydd pasiau rhatach yn cael eu rhoi.
  - 4.19 Os nad yw dysgwyr/teithwyr yn ymddwyn yn unol â chanllawiau'r cludiant a/neu yn bygwth diogelwch y staff mewn unrhyw ffordd, dylid adrodd yn ôl trwy'r sianeli arferol, a gall camymddwyn parhaus arwain at waharddiad i deithio.
  - 4.20 Dylid gwaredu unrhyw Gyfarpar Diogelwch Personol sydd wedi'i halogi yn ddiogel ar unwaith ar ôl ei ddefnyddio.
  - 4.21 Ar ddiwedd eu sifft, dylai gyrwyr a Chynorthwyrwyr Teithio leihau unrhyw halogiad posibl cyn mynd i mewn i'w cartref eu hunain – mae pethau allweddol i'w gwneud yn cynnwys ymolchi gyda dŵr a sebon, ynysu dillad a nwyddau personol mewn bag/bocs cyn glanhau.

## 5. Canllawiau Coronafeirws (Covid-19)ychwanegol ar gyfer Cludiant i Ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

- 5.1 Mae'n hynod o bwysig bod yr Uned Cludiant Integredig (ITU) yn cael eu hysbysu gan ysgolion a rhieni pa ddysgwyr sy'n dychwelyd ac a fydd angen cludiant. Er mwyn ein galluogi i ddarparu'r cludiant pwrpasol, dylid nodi y gallai cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol fod yn brin, felly gofynnir i rieni gysylltu gyda'r ITU os oes ganddynt unrhyw bryderon.
- 5.2 Os darperir cludiant tacsï mewn 'car' o faint arferol ar gyfer rhwng 1 – 3 dysgwr gyda Chynorthwydd Cludiant, ni fydd yn bosib cynnal y protocol ymbellhau cymdeithasol. Gellir defnyddio cerbydau mwy o faint os yw'r adnoddau ar gael, fodd bynnag ni fydd hyn yn bosib bob amser a chynghorir rhieni o'r herwydd i ofyn am eglurhad i'r ITU neu'r gweithredwr os oes ganddynt unrhyw bryderon.
- 5.3 Dylid sicrhau bod gan y Cynorthwydd Teithio sedd yng nghefn y cerbyd, ac sydd agosaf at y gyrrwr fel bod y dysgwyr yn eistedd ymhellach oddi wrth y gyrrwr. Os oes anghenion corfforol, ymddygiadol neu feddygol, yna dylai'r Cynorthwydd Teithio eistedd mor agos ag sy'n ymarferol bosibl at y dysgwr/teithiwr perthnasol. Efallai y bydd angen i'r Cynorthwydd Teithio ymyrryd os oes digwyddiad penodol ar y daith. Dylai pob Cynorthwydd Teithio wisgo Cyfarpar Diogelu Personol lefel 2 llawn.
- 5.4 Lle mae'r staff yn derbyn teithwyr gan eu rhieni/gofalwyr yn y manau codi, rhaid cadw at ganllawiau ymbellhau cymdeithasol a dylid defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol, diheintydd dwylo a glanhau'n briodol yn syth cyn, ac ar ôl trosglwyddo'r teithwyr; dylid cadw'r pellter mwyaf oddi wrth rieni/gofalwyr a'r amser cyswllt lleiaf bosibl – ni ddylid cael unrhyw gysylltiad corfforol â'u drysau, giatau neu unrhyw eiddo yn perthyn i'r rhiant/gofalwyr.
- 5.5 Dylid cynnal asesiad risg ychwanegol lle mae amgylchiadau'n newid neu lle bo materion ychwanegol yn bresennol.
- 5.6 Ar gyfer dysgwyr/teithwyr a allai fod angen meddyginiaeth achub arnynt, mae'n bosib na fydd modd darparu cludiant oherwydd y risgiau bosibl i heintiau y gallai hyn ei achosi. Cysylltwch â'r ITU am eglurhad.
- 5.7 Os yw'r Cynorthwydd Teithio angen cau gwregys diogelwch/harnes y teithiwr, dylid gwneud hynny heb fawr o gyswllt corfforol, gan wisgo'r Cyfarpar Diogelu Personol priodol.
- 5.8 Wrth wisgo a thynnu Cyfarpar Diogelu Personol, mae'n bwysig bod golchi'r dwylo/diheintio dwylo ar ôl pob defnydd. Rhaid gwisgo a thynnu'r Cyfarpar Diogelu Personol yn y drefn gywir yn ogystal er mwyn osgoi croeshalugi. Mae'r canllawiau llawn ar ddull a threfn gwisgo a thynnu Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ar <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-personal-protective-equipment-use-for-non-aerosol-generating-procedures>. Am syniadau ar sut i osgoi sbectol yn stemio wrth wisgo gorchudd wyneb ewch i: <https://www.bbc.co.uk/news/av/newsbeat-53406105>
- 5.9 Os yw gyrrwr neu Gynorthwydd Teithio yn gorfod symud cadeiriau olwyn, yna dylent lanhau dolenni'r gadair olwyn. Yn yr un modd, os oes angen gosod seddi ceir neu seddi codi, dylid glanhau'r arwyneb caled (e.e. cragen allanol, bwcl) cyn eu gosod yn y cerbyd, a'u glanhau ar ôl eu defnyddio – dylid gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer cyflawni'r tasgau hyn, gan gynnwys menig untro a masgiau wyneb sy'n gwrthsefyll hylifau.
- 5.10 Dylai cludiant teithwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (boed yn dacsï neu fws hygyrch) ystyried gweithdrefnau'r GIG ar gyfer cludiant i berson heb symptomau Covid-19 lle nad yw ymbellhau cymdeithasol yn bosib (gweler Tabl 4 rheoli heintiau) a ddangosir yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/879111/T4\\_poster\\_Recommended\\_PPE\\_additional\\_considerations\\_of\\_COVID-19.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/879111/T4_poster_Recommended_PPE_additional_considerations_of_COVID-19.pdf)

- 5.11 Bydd angen cynllunio gofalus a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, yn ogystal â rhai ag anableddau lle y gallai fod angen trin a chyswllt parhaus arnynt wrth fynd i mewn a dod allan o gerbydau, fel yng ngweithdrefnau'r GIG.
- 5.12 Darperir cludiant os mai dyma'r unig ddewis sydd ar gael ar gyfer anghenion y dysgwyr/teithiwr, a'i fod yn ffordd briodol o gludo'r teithiwr.
- 5.13 Dylid osgoi unrhyw symud, trafod a chynnal cyswllt parhaus diangen o deithiwr.
- 5.14 Os yw dysgwr neu deithiwr yn peri risg diogelwch annerbyniol i staff neu ddysgwyr/teithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu cludiant yn ôl heb rybudd.
- 5.15 Dylai gweithredwyr a staff fod yn ymwybodol o ddogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â 'COVID-19: atal a rheoli heintiau (IPC)' . Gellir ei weld yn <https://www.gov.uk/government/publications/wuhan-novel-coronavirus-infection-prevention-and-control>
- 5.16 Dylai gweithredwyr hefyd fod yn ymwybodol o 'Ganllawiau i Ymddiriedolaethau Ambiwylans' sydd i'w gweld yn <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-guidance-for-ambulance-trusts/covid-19-guidance-for-ambulance-trusts>

## **6. Gwasanaethau Bysiau Lleol (bysiau cyhoeddus) Canllawiau Covid-19**

6.1. Mae'r canllawiau diweddaraf ar gyfer cludiant cyhoeddus i'w ganfod yma  
<https://gov.wales/restarting-public-transport-guidance-operators>

## 7. Grwpiau Cludiant Cymunedol

7.1 Mae'r egwyddorion cyffredinol uchod yn gymwys ar gyfer cludiant cymunedol, ond os oes gan Grwpiau unrhyw ymholiadau, yna dylent gysylltu â'r Uned Cludiant Integredig (ITU).

*Cyngor Sir Penfro, Uned Cludiant Integredig, Neuadd y Sir, Hwlfordd Sir Benfro, SA61 1TP  
Rhif Ffôn 01437 775221 / 01437 7756313 neu 01437 775220 neu 1437 775222  
E-bost: [school.transport@pembrokeshire.gov.uk](mailto:school.transport@pembrokeshire.gov.uk)  
Gwefan: [www.pembrokeshire.gov.uk](http://www.pembrokeshire.gov.uk)  
Dyddiad: 5 Chwefror 2021*